**Atodiad 3**

# Crynodeb o’r Contract Cyfnodol Safonol Enghreifftiol

## Nid yw hyn yn rhan o’r contract

**Bwriedir i’r crynodeb hwn eich helpu i ddeall beth y mae’r gwahanol adrannau yn y contract enghreifftiol yn ei olygu.**

**Rhent a thaliadau eraill (Adran A - Tudalen 1):** Nodir yma fod yn rhaid i chi dalu eich rhent yn llawn ac yn brydlon. Nid oes angen i chi dalu rhent diwrnod am bob diwrnod y bydd eich landlord heb roi datganiad ysgrifenedig i chi o’r contract. Mae hefyd yn nodi ym mha fodd y gall y landlord newid swm y rhent a bod yn rhaid i chi dalu’r dreth gyngor a biliau eraill fel nwy a thrydan. Eglurir hefyd sut y mae’n rhaid i’r landlord ddelio ag unrhyw flaendal a delir gennych chi.

**Ymddygiad gwaharddedig (Adran B - Tudalen 2):** Os byddwch chi, neu unrhyw un arall sy’n byw yn y fangre neu’n ymweld â hi yn gwneud unrhyw un o’r pethau a nodir yma, gallech golli eich cartref. Mae hyn yn cynnwys trais yn y cartref, ymddygiad gwrthgymdeithasol a defnyddio’r fangre at ddibenion troseddol.

**Rheoli’r fangre (Adran C - Tudalen 3):** Nodir yma na chewch redeg busnes gan ddefnyddio’r fangre. Mae hefyd yn egluro fod yn rhaid i’r landlord ganiatáu i chi fyw yn y fangre heb ymyrraeth. Mae’n rhaid i’r landlord roi i chi o leiaf 24 awr o rybudd os bydd angen iddo ef, neu rywun sy’n gweithio iddo, ddod i mewn i’r fangre i wneud gwaith atgyweirio, archwilio cyfarpar nwy, delio â phla neu wneud rhywbeth arall sydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith. Caiff y landlord ddod i mewn i’r eiddo mewn argyfwng heb roi unrhyw rybudd i chi.

**Nifer o feddianwyr eraill (Adran D - Tudalen 4):** Nodir yma y cewch chi benderfynu faint o bobl sy’n cael byw yn y fangre. Fodd bynnag, ni chewch ei gorlenwi.

**Gofalu am y fangre (Adran E - Tudalen 5):** Nodir yma eich cyfrifoldebau chi a’r landlord o ran gofalu am y fangre.

**Gwneud newidiadau i’r fangre neu i wasanaethau (Adran F - Tudalen 8):** Mae’n rhaid i chi gael caniatâd y landlord cyn newid: gosodiadau a ffitiadau’r landlord; codi erial neu ddysgl lloeren radio neu deledu, neu addurno’r tu allan i’r fangre. Efallai y gallwch newid eich cyflenwr trydan neu nwy ond ni chewch ganslo’r cyflenwad dŵr, trydan na nwy, na gosod na thynnu mesurydd, heb ganiatâd y landlord.

## Atodiad 3

**Sicrwydd a diogelwch (Adran G - Tudalen 9):** Nodir yma sut y mae'n rhaid i chi gadw'r fangre'n ddiogel. Ni chewch newid y cloeon na chael torri allweddi ychwanegol. Hefyd, mae'n rhaid i chi ddweud wrth y landlord os ydych yn mynd i fod i ffwrdd am 30 diwrnod neu fwy. Mae'n rhaid i chi wirio'n rheolaidd fod larymau tân, larymau mwg a synwyryddion carbon monocsid yn gweithio, a newid unrhyw fatris pan fo angen.

**Trafodion (Adran H - Tudalen 9):** Os yw'r landlord yn cytuno, caniateir i chi gael lletywr. Ni chewch is-osod y fangre na throsglwyddo'r contract heb ganiatâd y landlord.

**Darpariaethau ar gyfer cyd-ddeiliaid contract (Adran I – Tudalen 11):** Eglurir yma sut y gellir ychwanegu cyd-ddeiliad contract at y contract neu sut y gall dynnu'n ôl.

**Terfynu'r contract (Adran J / K / L – Tudalennau 12 i 22):** Mae'r adrannau hyn yn egluro sut y gellir terfynu'r contract. Mae'n rhaid i'r tenant roi mis o rybudd. Mae'n rhaid i'r landlord roi dau fis o rybudd ac ni all droi deiliad y contract allan heb orchymyn llys. Mae telerau 129 i 165 yn egluro ar ba sail y gall y landlord wneud cais am orchymyn llys.

**Amrywiad (Adran M – Tudalen 22):** Nodir yma sut y gellir amrywio rhai o delerau'r contract. Mae'n rhaid i'r landlord roi hysbysiad ysgrifenedig i chi am unrhyw amrywiad cyn pen pythefnos ac am bob diwrnod y mae'n hwyr, nid oes angen i chi dalu un diwrnod o rent.

**Materion eraill (Adran N – Tudalen 23):** Eglurir yma y gall y landlord geisio eich troi allan os byddwch yn cael y contract trwy dwyll. Nodir pa wybodaeth y mae'n rhaid i'r landlord ei rhoi i chi a bod gennych hawl i iawndal efallai os na fydd yn ei rhoi. Nodir hefyd fod yn rhaid i unrhyw hysbysiadau a roddir o dan y contract fod yn ysgrifenedig.

**Mae canllawiau pellach i'r contract i'w cael yn:**

**[www.cymru.gov.uk/rhentu cartrefi](www.cymru.gov.uk/rhentu cartrefi)**